# Ymweliad safloedd cynllunio

## Adroddiad ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2010

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Y Cynghorydd Jim Evans (Cadeirydd Gweithredol ar gyfer Safle 1, 2, 3);<br>Cynghorydd John Chorlton (Cadeirydd Gweithredol ar gyfer Safle 4)<br>Y Cynghorwyr Eurfryn G. Davies, Kenneth P. Hughes, T. H. Jones, R. L. Owen, John Penri Williams. |
| **Hefyd yn bresenol:** | Y Cynghorydd Fflur Hughes (Safle 1); Keith Evans (Safle 3) |
| **Wrth law:** | Rheolwr Rheoli Cynllunio (DFJ)<br>Swyddog Rheoli Datblygu (RE)<br>Prif Beiriannydd (Rheoli Datblygu a Hawliau Tramwy Cyhoeddus)(JRWO) (Safle 4 yn unig)<br>Swyddog Pwyllgor (JMA) |
| **Ymddiheuriadau:** | Y Cynghorwyr Lewis Davies, Eric Roberts, J. Arwel Roberts. |

**1 34C561B - Cais llawn i godi annedd fforddiadwy ynghyd ag adeiladu mynedfa i gerbydau ar dir ger Tyddyn Gwynt, Rhostrehwfa**

Yn dilyn trafodaeth ar y cais yng nghyfarfod 6 Hydref 2010 fe gytunwyd i gynnal ymweliad safle fel y gallai'r Aelodau gael cyfle i asesu'r effaith gâi y datblygiad.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio mai cais amlinellol yw hwn am dy fforddiadwy. Eglurodd y Swyddog nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i'r cais ond ei fod yn credu bod lleoliad y ty arfaethedig yn amhriodol gan ei fod yn ymwthio i'r cefn gwlad agored. Dangoswyd cynllun o'r cynnig i'r aelodau ynghyd â chynllun yn dangos yr holl dir oedd ym mherchnogaeth yr ymgeisydd. Gofynnwyd cwestiwn ynglyn â'r posibilrwydd o ail leoli'r ty arfaethedig yn nes at yr annedd bresennol. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd R. L. Owen, cadarnhaodd y Swyddog bod y plot yn un o faint gweddol gyffredin.

Diolchodd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Fflur Hughes, i'r Aelodau am ymweld â'r safle. Dywedodd ei bod yn cefnogi'r cais gan ei fod yn agos iawn i'r ffin a'i fod yn gais am dy fforddiadwy. Ychwanegodd y byddai'n cyflwyno ei safbwyntiau unwaith yn rhagor yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio.

**2 17C447 - Cais llawn i ddymchwel yr annedd bresennol a chodi annedd yn ei lle a gwneud gwaith altro i'r fynedfa bresennol ger Erwyn, Llansadwrn**

Yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Eurfryn Davies oedd wedi gofyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle fel y gallai'r Aelodau gael cyfle i weld pa effaith, os unrhyw, gâi'r cynnig ar fwynderau eiddo cyfagos.

Eglurodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio mai cynnig yw hwn i ddymchwel ty deulawr presennol a dangosodd gynlluniau i'r Aelodau o'r annedd newydd arfaethedig a'r fynedfa. Nododd yr Aelodau bod y cynnig o fewn dwy fetr i'r eiddo unllawr sydd gerllaw a gwelwyd hefyd union leoliad yr annedd newydd arfaethedig a'i ddyluniad.

**3 39C351B - Cynlluniau llawn i ddymchwel y sied trwsio cychod presennol a chodi cwt cychod newydd ger Ynys Faelog, Ffordd St. Georges, Porthaethwy**

Roedd y Pwyllgor Cynllunio yn ei gyfarfod ar 6 Hydref 2010 wedi penderfynu ymweld â'r safle yn unol ag argymhelliad y swyddog.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio mai cais oedd hwn i ddymchwel y sied trwsio cychod presennol wedi'i adeiladu o ddur a'i newid am adeilad cyfoes gyda tho bwaog.

Byddai'r cwt cychod newydd yn cael ei adeiladu gyda waliau o garreg leol a tho sinc. Nid oedd y swyddog yn tybio bod y dyluniad yn un dadleuol. Byddai'r adeilad yn cael ei ddefnyddio i storio ac i drwsio cychod. Er mwyn adeiladu'r adeilad byddai angen ffurfio ffordd fynedfa dros dro i'r Ynys. Safle dros dro fyddai hwn - roedd CCW wedi cytuno i'r cynnig cyn belled a'i fod am gyfnod o 6 mis yn unig ac y byddai'r safle'n cael ei adfer i'w gyflwr gwreiddiol wedi hynny.

Dweud wnaeth yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Keith Evans, bod y cais yn un dadleuol iawn yn lleol a'i fod yn cynrychioli'r farn leol. Fe eglurodd bod yr adeilad ar flaen y traeth mewn sefyllfa i gael ei effeithio gan y llanw a'i fod ar hyn o bryd wedi mynd a'i ben iddo. Dywedodd bod gan bobl leol bryderon ynglyn â defnydd yr adeilad yn y dyfodol ac am rwydwaith y ffyrdd. Cadarnhaodd y Swyddog Rheoli Datblygu y byddai'n rhaid gosod pibelli ar hyd safle'r mynediad ond mai am gyfnod tros dro yn unig y byddai hyn. At hyn, roedd yr ymgeisydd wedi cadarnhau y byddai'n defnyddio cerbydau priodol ar gyfer adeiladu'r ffordd fynedfa ac y byddai'n cyfyngu'r defnydd hwnnw i 6 mis yn unig.

**4 31C354B - Cais llawn i godi dau bâr o dai pâr ynghyd â chreu mynedfa i gerbydau ger Ty Coch, Llanfairpwll**

Rhoddodd y Cynghorydd John Chorlton wahoddiad i'r swyddog roi adroddiad ar y cais. Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio mai cynnig yw hwn am ddau bâr o dai pâr (4 ty i gyd) a dangosodd y safle arfaethedig i'r aelodau. Eglurodd y byddai'r fynedfa bresennol yn cael ei symud ac y byddai mynedfa newydd yn cael ei chreu fyddai'n darparu llefydd parcio ar y safle.

Yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Jim Evans oedd wedi gofyn yng nghyfarfod 6 Hydref 2010 am i'r aelodau ymweld â'r safle. Mynegodd y Cynghorydd Evans bryderon ynglyn â dwysedd, carthffosiaeth a materion llain gwelededd. Dywedodd y Prif Beiriannydd na fyddai'r waliau newydd yn fwy na 6 troedfedd o uchder a'i fod yn fodlon bod y llain gwelededd yn bodloni'r safonau angenrheidiol.

**Y Cynghorydd Jim Evans**
**Cadeirydd**